


5




6




WALES

On rainy days we indulge in the LIGHT literature of the country.

7

Saeson ym mlynyddoedd cynnar y ganrif hon a rhan fawr a phwysig o'u diddordeb yw eu bod yn cynnwys delweddau o'r Cymry ar y pryd. Yn y fan hon y mae'r cwestiynau difyr. Ai fel hyn yr oedd y Cymry'n synio amdanynt eu hunain? Ai delweddau poblogaidd i blesio'r Saeson ac i gadarnhau eu barn a'u rhagfarn am y Cymry oedd y rhain? A oes ynddynt ddychan ar y Cymry neu hyd yn oed ar y Saeson? A yw'r delweddau ystrydebol, y *clichés* hyn, yn dweud rhyw wir neu ryw gaswir amdanom fel pobl? Rhaid cofio, wrth gwrs, mai creu difyrrwch yw amcan cyntaf yr artistiaid a'r cynhyrchwyr. Ond y mae hiwmor a hiwmor . . .

Gwraig sy'n cynrychioli Cymru ar y cardiau digrif. Mamwlad yw Cymru ac y mae i hynny ei oblygiadau (1). Gwraig uniaith Gymraeg yw hi ac mae hi'n gwisgo'r het Gymreig hollbresennol a'r 'wisg Gymreig' yn ddi-ffael (2). A gwraig gyffredin yw hi fel arfer (er y gall ei gwisg fod yn ddigon ffansi); un o'r gwerinos yw hi; gwraig sy'n nyddu ac yn gwau. 'Cottage industries' sydd yng Nghymru, 'peasant woman' yw hi (3). A hyn yn y cyfnod cyn Rhyfel 1914-18, pryd yr oedd Cymru'n wlad y diwydiannau trwm! Aeth J. M. Staniforth, cartwnydd cynhyrchiol y *Western Mail*, ati i amrywio'n greadigol ar y ddelwedd hon. Staniforth a boblogeiddiodd 'Dame Wales', gwraig dew, fodlon, sy'n cael blas ar fyw, a'i merch, sydd yn dipyn o gymeriad (4).

Ond sylwch, y Gymraes hardd, ifanc, yw atyniad mwyaf Cymru i'r Sais ar ei wyliau, nid prydferthwch y wlad. Gall gefnu'n gyson galon-galed ar ei gariad ei hun, (5) er nad yw'n cael rhwydd hynt gyda'r Gymraes ychwaith. I ogledd Cymru y deuai Saeson y cardiau post ac yr oedd yr iaith yn faen tramgwydd difrifol i'r carwr eiddgar yn ei Siaced Norfolk.

Problem yr iaith (hynny yw, i'r Saeson) — dyna un o'r themâu poblogaidd yn y cardiau digrif: y Sais uniaith ar goll yn y Gymru Gymraeg ac yntau'n methu deall y bobl ac yn methu'n lân â deall yr enwau lleoedd anfeidrol hir (6). Chwerthin am ben y Sais a wneir yn y cardiau hyn ac weithiau y mae cryn fin ar y dychan, gyda'r artist yn pwysleisio'r gwahaniaeth dosbarth rhwng y Cymro a'r ymwelydd cefnog o Sais.

Ond fe geir yma hefyd jôcs mewnol. Dim ond y Cymry a allai werthfawrogi'r darlun o'r teulu diwylliedig lle mae'r babi'n hyddysg yng ngwaith Morgan Llwyd! (7) Neu'r bardd (un o beryglon eraill y wlad) a all ddychryn y Sais druan gyda dyfyniad o waith un o'r Gogynfeirdd! (8)

Y mae amryw o themâu eraill